Ar Drywydd y Gwneuthurwyr Haearn 1

# Llwybr Homfray









Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

## Taith 1 Llwybr Homfray

Taith egnïol, 6 milltir – 10 cilomedr, 2 awr

**Man cychwyn - Tŷ Bedwellte (SO 143 085).**

Tŷ Bedwellte oedd plasty'r teulu Homfray - meistri haearn Gwaith Haearn Tredegar. Cafodd ei adeiladu oddeutu 1800 ac fe'i estynnwyd ym 1818. 1 2 3 4

**Ewch trwy'r prif byrth i Morgan Street. Ewch ymlaen tuag at Gloc y Dref.**




*Cloc y Dref, Tredegar*

Adeiladwyd Cloc y Dref yn 1858 gydag arian Bazaar a drefnwyd gan Mrs R. P. Davies, gwraig rheolwr y gwaith. Er ei fod wedi ei wneud o haearn bwrw ni chafodd ei wneud o haearn Tredegar ond cafodd ei adeiladu gan Charles Jordon o Gasnewydd. Y Cylch yw calon cynllun y dref a osodwyd ar ffurf grid tua 1802. Erbyn 1841 roedd poblogaeth Tredegar dros 7,300 ac yn dal i dyfu. 5 6 7

**O'r gloc, ewch yn eich ôl cyn troi i'r chwith i lawr Bridge Street i Gapel Bedyddwyr Siloh** - cwblhawyd yn 1806. **Trowch i'r dde i Shop Row.**

Wedi'i adeiladu yn 1811, roedd Siop y Cwmni ar un adeg yn adeilad tri llawr crand gydag adain dau lawr.

**Dilynwch Iron Row i fyny'r allt at gornel Duke Street, i Stryd y Dug, dilynwch y llwybr o'r tu ôl i'r capel mawr, trwy'r maes parcio bach ac i lawr i'r drofan ar bwys y safleoedd bysus.**






*Gwaith Haearn Tredegar*

**Dilynwch y llwybr troed o'r capel mawr, trwy'r maes parcio bach ac i lawr i'r gylchfan ar bwys yr Orsaf Bysus.**

Dyma'r fynedfa i Lefel yr Iard ble torrodd John Jones ('y Coliar Mawr') y bloc mwyaf o lo erioed i gael ei gloddio i'w ddangos yn Arddangosfa Fawr y Palas Grisial yn 1851. Roedd y bloc yn pwyso ugain tunnell ac fe'i gosodwyd yng ngerddi Tŷ Bedwellte ble gellir ei weld hyd heddiw. 8 **Cerddwch dros gornel y prif faes parcio.**



*Tŷ Bedwellte*

Sefydlwyd Gwaith Haearn Tredegar yn 1801 ar dir a rentwyd gan Syr Charles Morgan o Barc Tredegar ger Casnewydd a galwyd y gwaith newydd yn Waith Haearn Tredegar er anrhydedd iddo ef. Cwblhawyd y ffwrnais chwyth cyntaf yn 1801. Erbyn 1841, roedd gan y gwaith haearn weithlu o dros 2,700. 9

**Ewch yn eich ôl i ben uchaf Stryd y Castell, croeswch y brif heol a dilyn Queen Street, Harcourt Terrace a Park Row.** 10 **Y tu hwnt i Park Row mae'r ffordd yn troi i fyny'r allt yn sydyn. Ar ôl dringo am ryw 1.5km** 11 **, trowch i'r chwith ac fe welwch bwll mawr ar y dde. Dilynwch yr argae hyd at Fynwent Colera Cefn Golau.** Yma, cawn ein hatgoffa o'r heintiau colera a darodd Tredegar yn 1832, 1833, 1849 ac 1866. Yn 1849, cafodd strydoedd cyfan eu lladd gan yr haint.

**Dychwelwch i ganol y dref i barhau gyda gweddill y daith. Trowch i'r chwith i Commercial Street. Ar ddiwedd Commercial Street** 12 **cerddwch yn syth ymlaen i Church Street gan basio Eglwys San Siôr.**



*Mynwent Colera Cefn Golau*

Cynlluniwyd yr eglwys gan John Jenkins a chafodd ei chwblhau yn 1842. Mae'r adeilad yn debyg i dy injan mewn gwaith haearn.

**Gyferbyn â'r eglwys saif y Feddygfa Ganolog a adeiladwyd yn 1911 gan y "Tredegar Medical Aid Society" (Cymdeithas Gymorth Meddygol Tredegar)**

Roedd y feddygfa'n darparu ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth, fferyllfa, ac ystafell aros. Defnyddiwyd Cymdeithas Gymorth Meddygol Tredegar gan Aneurin Bevan fel model ar gyfer sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gyhoeddus. Yn Nhredegar y ganwyd y GIG.

**Ewch ymlaen at y gylchfan ble mae'r A4048 a'r A4047 yn cyfarfod. Croeswch yn syth ar draws y gylchfan a byddwch yn croesi pont dros yr afon Sirhywi.**

Adeiladwyd y bont rhwng 1802 a 1805 gan Richard Fothergill i gario Tramffordd Sirhywi oedd yn cysylltu Sirhywi a Thredegar gyda Chasnewydd.

**Cyn mynd ymlaen i Waith Haearn Sirhywi trowch i'r dde ar hyd Dukestown Road.** Yma fe welwch gerrig wedi eu cerfio. Mae un ohonynt, dyddiedig 1818, yn coffáu'r flwyddyn y daeth gwaith Sirhywi i berchnogaeth cwmni Glyn Ebwy. Yr un sy'n ddyddiedig 1797 yw'r unig ran o'r ffwrneisi chwyth gwreiddiol sydd ar ôl.

**Dychwelwch a throi i'r dde trwy'r gofod yn Dukestown Road ac i mewn i Graham's Yard.**



*Gwaith Haearn Sirhywi*

Sefydlwyd Gwaith Haearn Sirhywi yn 1778. Yn 1818, daeth cwmni Glyn Ebwy yn berchen ar y gwaith ac erbyn 1844, roedd ychydig llai na 1000 o bobl yn gweithio yno. O flaen y ddau fwa saif "baich ffwrnais" – lwmp mawr o haearn a sorod. Dyma'r oll sydd ar ôl o ffwrnais oedd yn sefyll ar ei phen ei hun fry uwchben y bwâu 13.

**Ewch ymlaen i'r gogledd allan o'r safle trwy'r lôn gul. Dilynwch Dukestown Road.** Ar ôl 150m byddwch yn pasio beth oedd arfer bod yn Siop Tryc Sirhywi ar y dde (Armoury Stores erbyn hyn).

**Ewch ymlaen ar hyd Dukestown Road** – mae'n dilyn cwrs camlas fechan oedd yn cynhyrchu'r dŵr ar gyfer olwyn ddŵr injan chwythu 1797 yn y gwaith haearn.

**Croeswch Nant Melyn dros y bont o flaen y "Glamorgan Tap", trowch i'r chwith o flaen Yellow Row a cherddwch ar hyd Picton Road.** Ar ôl 70m fe ddewch at dro i'r dde ger man gwyrdd. Caiff ei adnabod fel Feeder Bank ac mae hefyd yn dilyn y gamlas oedd yn rhedeg i'r Gwaith Haearn. **Oddi tanoch ac i'r chwith mae pentref Scwrfa.** Ystyr yr enw yw "sgwrio" ac mae'n cyfeirio at glodio glo brig gyda grym dŵr yn yr ardal yn y cyfnod cynnar.

**Dilynwch y ffordd i'r pen a pharhau ar y llwybr cerdded o'ch blaen.** Mae'r gamlas yn goroesi yma fel ffos ddreiniog ar ochr dde'r llwybr.

**Dilynwch y llwybr cerdded nes dod at y gyffordd gyda Scwrfa Road. Trowch i'r dde ac i St Luke's Road.** 14 **Ewch i lawr yr allt i gyrraedd Pont y Widw ar draws afon Sirhywi.**

Dilynwch y llwybr cerdded ar y dde am ryw 100m i fyny'r afon at y prif gored a adeiladwyd yn 1796 i wyro dŵr i'r gamlas. Bydd y llwybr cerdded o'ch blaen yn dod â chi at y draphont drawiadol a adeiladwyd yn 1864 i gario Rheilffordd Merthyr, Tredegar a'r Fenni ar draws y cwm.




**Ewch ymlaen i ymuno gyda'r A4048 ar y gylchfan** 15**. Trowch i'r chwith a dilyn Ashvale Road heibio'r Crown Inn. Ewch at y gylchfan nesaf ar y A4048. Peidiwch ag ymuno â'r gylchfan ond cadwch i'r dde.** Mae Charles Street ar eich chwith, man geni Aneurin Bevan. Peidiwch â dilyn Charles Street.

**Dilynwch y ffordd dde a pharhau ar hyd Sycamore Avenue gan ddilyn llinell Tramffordd Tredegar am ychydig dros 1km nes dychwelyd i ganol y dref.** Yn y man ble mae'r ffordd yn gwyro ger Ysgol Gynradd Deighton, safai Pwll Briggs. O'ch blaen ar y gylchfan roedd Tramffordd Tredegar yn croesi Commercial Road i mewn i'r Gwaith Haearn.

**Trowch i'r dde i mewn i Commercial Road ac i lawr Castle Street ac ymlaen i'r Cylch. Cariwch ymlaen yn ôl lawr Morgan Street i'r man ble cychwynnodd y daith.**



*Merch o löwr, Tredegar*


Er mwyn gadael inni wybod a fuoch chi'n mwynhau'r daith neu am ragor o fanylion cysyllter â ni ar 01495 355937 / 07968 472812
alyson.tippings@blaenau-gwent.gov.uk